



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Cyfarwyddwyr Rheoli'r Consortia Addysg Rhanbarthol
Cyfarwyddwyr Addysg

Cc:
Cydgysylltwyr Rhanbarthol 14-19
Penaethiaid Uwchradd
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

30 Ionawr 2018

Annwyl Gyfeillion

Adrodd ar Berfformiad Ysgolion - Cwestiynau Cyffredin am Gofrestru Dysgwyr yn Gynnar a Bwletin 4

Ar 18 Hydref 2017, ysgrifennais atoch yn nodi'r newidiadau ym mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Roedd hyn yn dilyn [cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#) ar 16 Hydref ynghylch newidiadau i'r polisi ar gofrestru dysgwyr yn gynnar o ganlyniad i gynnydd nodedig yn y niferoedd a oedd yn cofrestru dysgwyr yn gynnar i sefyll arholiadau TGAU.

Fel yr esboniais yn fy llythyr cynharach, o dan fesurau perfformiad cyfredol Cyfnod Allweddol 4, y canlyniad gorau o gyfres o ganlyniadau sy'n cyfrif. Fodd bynnag, esboniodd cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ([link to record of proceedings](#)) y bydd hyn yn newid yn 2019. **O haf 2019, dim ond y canlyniadau cyntaf a ddyfernir ar gyfer cymhwyster llawn a fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad.**

Mewn ymateb i gwestiynau gan rai y bydd hyn yn effeithio arnynt, rydym wedi paratoi'r Cwestiynau Cyffredin sydd ynghlwm i egluro'r polisi newydd a sut y bydd yn effeithio ar brosesau cofrestru ar gyfer arholiadau ysgolion. Er enghraifft, rydym wedi egluro [na fydd](#) y polisi 'canlyniad cyntaf sy'n cyfrif' yn ôl-weithredol ar gyfer dysgwyr sydd ym Mlwyddyn 9 ar hyn o bryd a'r rheini sy'n iau sydd eisoes wedi sefyll arholiadau am gymwysterau cyn i'r polisi hwn gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2017. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, yn achos pob dysgwr a gofrestrir yn gynnar ym mhob grŵp blwyddyn, y cynnig cyntaf fydd yn cyfrif. **Bydd y dysgwr yn parhau i allu defnyddio'r canlyniad gorau i fynd ymlaen at ddsygu pellach.**

Rwyf am ailbwysleisio na ddylai'r newidiadau hyn yn y ffordd y caiff mesurau perfformiad ysgolion eu cyfrifo atal ysgolion rhag cofrestru dysgwyr i sefyll arholiadau yn gynnar, os mai dyna sydd orau i'r dysgwyr hynny.

Yn ogystal â'r Cwestiynau Cyffredin, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth reolaidd i Awdurdodau Lleol a Chonsortia ar faterion yn ymwneud ag adrodd ar berfformiad ysgolion drwy fwletin penodol. Amcan hwn yw rhoi gwybodaeth am benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiâu ynghylch adrodd am berfformiad a rhoi eglurder ar unrhyw faterion cymhleth. Mae'n bleser gen i atodi Bwletin 4 sy'n rhoi sylw i'r materion diweddaraf, gan gynnwys y newidiadau i'r polisi cofrestru dysgwyr yn gynnar. A fydddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch ysgolion fel y bo'n briodol? Byddwn yn cyhoeddi bwletin arall yn fuan mewn perthynas ag adrodd ar berfformiad ôl-16.

Ar hyn o bryd, mae newidiadau dros dro yn cael eu gwneud i drefniadau atebolrwydd a pherfformiad fel rhan o'r broses o ddiwygio addysg drwy Dyfodol Llwyddiannus. Gan weithio gyda'r proffesiwn addysgu, llywodraeth leol, consortia, undebau ac arbenigwyr rhyngwladol, mae'r system atebolrwydd bresennol yn cael ei hadolygu'n barhaus. Fel y nodir yn ein cynllun gweithredu '*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*', rydym yn bwriadu cyhoeddi fframwaith gwerthuso a gwella newydd ar gyfer y system addysg gyfan yn ystod hydref 2018.

A fydddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch cydweithwyr mewn awdurdodau lleol ac ysgolion fel y bo'n briodol? Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y llythyr hwn, anfonwch e-bost atom yn ims@llyw.cymru

Yn gywir



Steve Vincent
Dirprwy Gyfarwyddwr
Effeithiolrwydd Ysgolion